

CYNGOR SIR Y FFLINT

ADRAN 7 DEDDF DIOGELU DATA, 1998

FFURFLEN GAIS I WELD GWYBODAETH

Eich Hawliau:

O dan delerau Deddf Diogelu Data 1998, mae gan unigolyn hawliau penodol i gael mynediad at ddata personol sydd gan yr Awdurdod amdano/amdani, ac yn ddibynnol ar amodau penodol, mae hawl gan yr unigolyn i gael disgrifiad o'r data personol y mae'r unigolyn yn destun iddo; dibenion prosesu'r data, y derbynwyr y gellir datgelu'r wybodaeth iddynt ac, fel arfer, i dderbyn copi o'r wybodaeth sy'n ffurfio data personol o'r fath.

Mae'r hawliau yn ddibynnol ar gais ysgrifenedig, talu ffi o £10 a rhoi gwybodaeth i fodloni'r Cyngor o ran pwy yw'r unigolyn sy'n gwneud y cais ac i helpu o ran lleoli'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr unigolyn hwnnw.

Os hoffech ganfod eich hawliau i weld gwybodaeth, atebwch y cwestiynau canlynol:

ADRAN 1 - Manylion Personol

Bwriad y wybodaeth a ofynnir amdani isod yw helpu'r awdurdod i fodloni ei hun ynghylch pwy ydych chi a dod o hyd i unrhyw ddata sydd ganddo amdanoch.

Defnyddiwch brif lythrennau.

Teitl (Ticiwch y bocs os yw'n briodol)	Mr		Mrs		Miss		Ms	
Teitl arall (e.e. Dr,Parch,ac ati)								
Cyfenw/ Enw Teulu								
Enw Cyntaf								
Enw Morwynol/ Blaenorol								
Rhyw (ticiwch y blwch)	Gwryw		Benyw					
Dyddiad Geni								

Cyfeiriad Cartref		
	Cod Post	Rhif Ffôn

Os ydych chi wedi byw yn y cyfeiriad hwn am lai na dwy flynedd, rhowch eich cyfeiriadau blaenorol hefyd:

Cyfeiriad Cartref blaenorol		
	Cod Post	Rhif Ffôn

Ydych chi wedi gwneud cais blaenorol i'r Cyngor i gael gweld eich data personol?

Ydw Nac ydw

Os felly, a wnewch chi roi dyddiad eich cais?

ADRAN 2 - Prawf o Bwy Ydych Chi

Er mwyn helpu i sefydlu pwy ydych chi, rhaid i chi gynnwys copi o **o leiaf dwy** ddogfen swyddogol sy'n rhoi digon o wybodaeth i brofi eich **enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad presennol a llofnod**. Er enghraifft, cyfuniad o drwydded yrru, cerdyn meddygol, tystysgrif geni / mabwysiadu, pasbort, bil gwasanaethau ac unrhyw ddogfennau swyddogol eraill sy'n dangos y manylion angenrheidiol. Peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol: ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddogfennau gwreiddiol a gaiff eu colli yn y post. Bydd angen llun ar gyfer ymholiadau'n ymwneud â chofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nodwch isod pa gopiâu o ddogfennau rydych yn eu darparu.

.....
.....

ADRAN 3

Ydych chi'n chwilio am eitem benodol o wybodaeth / data personol?

Nac ydw Ydw

Os Ydych, nodwch isod, gan y bydd hyn yn ein cynorthwyo i brosesu eich cais.

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

Y Data y Gofynnir Amdano

Os nad ydych yn gwneud cais am eitem benodol, a fuasech cystal â thicio'r blwch

neu'r blychau priodol, er mwyn nodi'r maes gwasanaeth sy'n cynnwys y data personol amdanoch.

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	<input type="checkbox"/>		
Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant	<input type="checkbox"/>		
Tai	<input type="checkbox"/>	Cynllunio	<input type="checkbox"/>
Iechyd Amgylcheddol	<input type="checkbox"/>	Cyflogaeth	<input type="checkbox"/>
Llyfrgell	<input type="checkbox"/>	Gwasanaethau Hamdden	<input type="checkbox"/>
Addysg	<input type="checkbox"/>	Treth y Cyngor	<input type="checkbox"/>
Budd-daliadau	<input type="checkbox"/>	Grantiau Myfyrwyr	<input type="checkbox"/>

Arall (nodwch)

.....

ADRAN 4 - Datganiad

Gofynnaf i chi roi manylion i mi am y data personol amdanaf, sy'n cael ei brosesu gennych at y dibenion a nodais uchod.

Rwyf hefyd yn cadarnhau mai fi yw testun y data ac nid rhywun sy'n gweithredu ar ei ran/ rhan.

Llofnodwyd Dyddiad:

ADRAN 5A

Cais sy'n cael ei wneud gan rywun sy'n gweithredu ar ran y sawl sydd am weld ei ddata

Rwy'n cadarnhau fy mod yn gweithredu ar ran y sawl sydd am weld ei ddata, sef ac amgaeaf brawf o fy awdurdod i weithredu ar ran y sawl sydd am weld ei ddata (er enghraifft, llythyr a lofnodwyd gan y sawl sydd am weld ei ddata yn rhoi awdurdod i mi, Pŵer Atwrnai, ac ati).

Teitl (e.e. Mr)		
Cyfenwau/ Enw Teulu		
Enw Cyntaf		
Cyfeiriad Cartref		
	Cod Post	Rhif Ffôn

ADRAN 5B

Prawf o bwy yw'r asiant er mwyn helpu i sefydlu eich hunaniaeth fel yr asiant awdurdodedig

Dylid cynnwys **o leiaf dwy** ddogfen swyddogol wahanol gyda'r cais sy'n rhoi digon o wybodaeth i brofi eich **enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad presennol a llofnod**. Er enghraifft, cyfuniad o drwydded yrru, cerdyn meddygol, tystysgrif geni / mabwysiadu, pasbort, bil gwasanaethau ac unrhyw ddogfennau swyddogol eraill sy'n dangos y manylion angenrheidiol. Peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol: ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddogfennau gwreiddiol a gaiff eu colli yn y post. Bydd angen llun ar gyfer ymholiadau'n ymwneud â chofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nodwch isod pa gopïau o ddogfennau rydych yn eu darparu.

.....
.....

Llofnodwyd gan: Dyddiad

Rhestr Wirio

- 1 Ydych chi wedi llenwi pob rhan o'r ffurflen gais sy'n berthnasol i'ch cais?
- 2 Ydych chi wedi llofnodi'r ffurflen?
- 3 Ydych chi wedi talu'r ffi o £10?
- 4 Ydych chi wedi amgáu'r dogfennau adnabod angenrheidiol?
- 5 Lle rydych yn gweithredu ar ran y sawl sydd am weld ei ddata, ydych chi wedi amgáu prawf o'ch awdurdod i wneud hynny?

Ar ôl ei llenwi, dylech anfon y ffurflen hon ac unrhyw ddogfennau sydd eu hangen at un o'r cyfeiriadau canlynol:

Ar gyfer Ceisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol:

Uwch Weinyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, CH7 6NN, neu anfonwch e-bost at Ian.Maclaren@flintshire.gov.uk

Ar gyfer yr holl Geisiadau eraill gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain:

Swyddog Cydymffurfiaeth Gwybodaeth, Adran Llywodraethu, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, CH7 6NR, neu anfonwch e-bost at dataprotection@flintshire.gov.uk

Er y gellir derbyn Ceisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain yn electronig, caiff ymatebion eu hanfon fel arfer drwy ddsbarthiad wedi ei gofnodi oherwydd rhesymau diogelwch.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn defnyddio'r wybodaeth ar y ffurflen hon at y dibenion y bwriedir iddi gael ei defnyddio yn unig, ac ni fydd yn ei datgelu i unrhyw barti arall heb ganiatâd deiliad y data, oni bai y caiff ganiatâd i wneud hynny gan y Ddeddf Diogelu Data.